# Climate Adaptation

Ymaddasu i Newid Hinsawdd

Sir Benfro PCF Fforwm Arfordir Pembrokeshire Coastal Forum

# Fframwaith The Three Horizons

## Fframwaith The Three Horizons

Mae Fframwaith The Three Horizons, a ddatblygwyd gan Bill Sharpe, yn arf pwerus ar gyfer llywio sgyrsiau am y presennol a'r dyfodol. Mae'n helpu i drosi gweledigaethau yn gamau ystyrlon, diriaethol sy'n gyraeddadwy. Mae'r dull hwn yn helpu i nodi'r sefyllfa bresennol, rhagweld y dyfodol a ddymunir a deall y llwybrau a fydd yn ein helpu i drosglwyddo o'r sefyllfa bresennol, i'r man lle dymunwn fod.

Yn awr

Yn y dyfodol agos

Yn y dyfodol hirdymor

Sefyllfa/system bresennol

Gweithgareddau trosiannol

Gweledigaeth y dyfodol

Yr hyn y dylem ei gadw o'r sefyllfa/system bresennol

Horizon 1

Mae'r llinell goch yn dangos horizon 1 (H1) ac yn cynrychioli'r sefyllfa neu'r system bresennol (er enghraifft, seilwaith, technoleg, polisïau a'r ffordd rydym yn ymateb i effeithiau hinsawdd heddiw). Gall y systemau presennol hyn fod yn aneffeithiol, neu'n effeithiol nawr, ond efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd ymdopi â heriau cynyddol newid yn yr hinsawdd.

Horizon 2

Mae'r llinell las yn dangos horizon 2 y gellir ei rannu'n ddwy ran H2- a H2+. Mae'r rhain yn arloesiadau neu'n llwybrau sy'n cyfrannu at y trawsnewid rhwng y presennol (H1) a'r dyfodol a ddymunir (H3).

H2-: Gwelliannau i arferion presennol yw'r rhain. Er eu bod yn ddefnyddiol, efallai na fyddant yn ddigon i fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd. Maent yn bennaf yn ymestyn oes arferion cyfredol (H1), a allai gyfyngu ar gynnydd tuag at y dyfodol a ragwelir (H3).

H2+: Syniadau arloesol a dulliau arbrofol yw'r rhain. Maent yn fwy tebygol o baratoi'r ffordd ar gyfer H3, a'n symud yn nes ato.

Yn fyr, mae H2- yn ein helpu i reoli'r presennol, tra bod H2+ yn ein gwthio tuag at nodau'r dyfodol.

H2-: Gwelliannau i arferion presennol yw'r rhain. Er eu bod yn ddefnyddiol, efallai na fyddant yn ddigon i fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd. Maent yn bennaf yn ymestyn oes arferion cyfredol (H1), a allai gyfyngu ar gynnydd tuag at y dyfodol a ragwelir (H3).